

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Hafan y Coed

Ward Llwyfen a Ward Masarn

Dyddiad arolygu: 10 - 12

Chwefror 2020

Dyddiad cyhoeddi: 03 Awst 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|------------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym..... | 8 |
| | Ansawdd profiad y claf | 9 |
| | Darparu gofal diogel ac effeithiol | 17 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | 26 |
| 4. | Beth nesaf? | 30 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG | 31 |
| | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad . | 32 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol..... | 33 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella | 36 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o wasanaeth Hafan y Coed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda'r nos ar 10 Chwefror 2020 ac yn ystod y diwrnodau canlynol, sef 11 a 12 Chwefror 2020. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Llwyfen
- Ward Masarn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref a chefnogol yn y ddwy ward.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau o ran gweithredu trefniadau cysgu allan a'r prosesau sy'n ymwneud â nhw, a bod angen gwneud gwelliannau sylweddol mewn perthynas â chwblhau a monitro hyfforddiant gorfodol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Arweinyddiaeth gref ar y wardiau
- Roedd cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau yn unol â Mesur y Gymraeg.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae rhai o'r cleifion yn cysgu allan¹ o'u wardiau dynodedig o ganlyniad i alw ychwanegol ac anghenion clinigol.
- Cwblhau a monitro hyfforddiant gorfodol.
- Adolygu a diweddarau'r polisiau
- Yr amrywiaeth o therapïau a gweithgareddau sydd ar gael i'r cleifion
- Darparu gwybodaeth ar y ward i'r cleifion.

¹ Mae cysgu allan yn golygu pan fydd angen i'r claf dreulio noson ar ward wahanol yn yr un ysbyty. Penderfyniad clinigol yw hyn, a chynhelir asesiad risg llawn yn ei gylch, gan ystyried amgylchiadau unigol ac anghenion y cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Hafan y Coed, Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Ffordd Penlan, Penarth, CF64 2XX.

Roedd ein harolygiad yn canolbwyntio ar ddwy ward ardal, sef:

- Ward Llwyfen – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu gofal aciwt ar gyfer hyd at 12 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed
- Ward Masarn – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu gwasanaeth adsefydlu ar gyfer hyd at 13 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed y mae angen gwasanaeth adsefydlu arnynt i drin eu hanhwylder meddwl.

Mae pob ward yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward, a thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o feysydd seiciatreg, seicoleg a therapi galwedigaethol.

Cefnogir yr ysbyty gan strwythurau clinigol a gweinyddol y bwrdd iechyd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Roedd gennym bryderon ynghylch cleifion a oedd yn gorfod cysgu allan ar wardiau eraill, a'r ffordd yr oedd hyn yn cael ei roi ar waith.

Cadw'n iach

Roedd gan yr ysbyty amrywiaeth eang o weithgareddau i'r cleifion eu gwneud, gan gynnwys bwrdd pŵl, ac roedd llyfrau a setiau teledu ar gael yn rhai o'r lolfeydd ar y wardiau. Er bod gan yr ysbyty amrywiaeth o gyfleusterau i gefnogi'r gwaith o ddarparu therapïau a gweithgareddau, ni welsom y cleifion yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau yn ystod ein harolygiad. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod wedi diflasu. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn awyddus i wneud mwy o weithgareddau therapiwtig gyda'r cleifion, ond nad oeddent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud hynny o ganlyniad i alwadau croes eraill.

Roedd y wardiau'n lân ac yn daclus, ac roedd yr amgylcheddau yn parhau i deimlo'n newydd. Fodd bynnag, roedd y ddwy ward yn edrych yn glinigol iawn, gyda waliau moel a fawr ddim gwybodaeth ar gael ar hysbysfyrddau i'r cleifion a'r ymwelwyr. Roedd rhai o'r waliau wedi'u difrodi ac roedd angen eu hatgyweirio. Dywedwyd wrthym fod yr adran ystadegau wedi cael ei hysbysu am hyn, ac y byddai'n cymryd camau yn ei gylch.

Roedd y cleifion ar y ddwy ward yn gallu defnyddio gardd amgaeedig. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cyfyngiadau a roddir ar y cleifion ar Ward Llwyfen, roedd yn rhaid i'r staff fynd gyda'r cleifion i'r ardd. Nid oedd y larymau staff yn gweithio ar y grisiau, felly roedd angen aelodau ychwanegol o'r staff i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. O ganlyniad i'r materion hyn, roedd y cleifion yn cael defnyddio'r ardd am gyfnod o amser cyfyngedig iawn, sef chwarter awr, ddwywaith y dydd. Rydym o'r farn bod hyn yn amhriodol, ac y dylai'r bwrdd

iechyd adolygu'r sefyllfa. Yn ychwanegol, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd defnyddio'r larymau staff ym mhob ardal o'r ysbyty.

Roedd amseroedd dynodedig ar Ward Llwyfen ar gyfer darparu diodydd i'r cleifion yn ystod y dydd. Roedd diodydd poeth yn cael eu cynnig bob dwy awr gan ddefnyddio fflasg boeth a oedd yn cael ei hail-lenwi bob dwy awr. Er bod ardal fyrbrydau ar gael, dim ond am ddwy awr y dydd yr oedd ar agor, ac nid oedd unrhyw gyfleusterau eraill i'r cleifion baratoi eu byrbrydau neu eu prydau bwyd eu hunain. Roedd jygiau diod ffrwythau ar gael, ond ni welsom ardal lle roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar ddŵr yfed yn hawdd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried opsiynau i helpu'r cleifion i gael diodydd poeth, dŵr a byrbrydau drwy gydol y dydd er mwyn lleihau'r arfer sefydliadol hwn o weini diodydd poeth ac oer yn ogystal â byrbrydau ar amseroedd dynodedig.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y canlynol:

- Caiff y waliau sydd wedi'u difrodi eu hatgyweirio
- Ei bod yn haws i'r cleifion fynd i'r ardd
- Ei bod yn hawdd i'r cleifion gael diodydd poeth ac oer yn ogystal â byrbrydau drwy gydol y dydd
- Bod y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau pan fyddant ar y wardiau
- Bod y wardiau yn edrych yn llai clinigol ac yn fwy croesawgar.

Gofal ag urddas

Nodwyd bod pob cyflogai, staff y ward, yr uwch-reolwyr a'r staff gweinyddol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgarn tuag at y cleifion.

Dangosodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw lefel dda o ddealltwriaeth o'r cleifion roeddent yn gofalu amdanynt. Dywedodd pob claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o

staff pe bai angen. Roedd parch amlwg a chydberthnasau sicr cryf rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd nifer o ardaloedd cymunedol ar y ddwy ward, a oedd yn rhoi digon o le i'r cleifion gael amser tawel personol i ffwrdd o'u hystafelloedd. Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely eu hunain gan ddefnyddio band arddwrn, ac roedd modd i'r staff eu datgloi os oedd angen. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig digon o le storio ac roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafell gyda lluniau a phosteri.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn curo ar ddrysau'r cleifion cyn mynd i mewn i'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cymunedol. Gwelsom fod bariau galw sy'n rhybuddio'r staff pan gânt eu pwysu yn ystafelloedd cymunol y ward, ond nid oedd unrhyw fannau galw am nyrs yn yr ystafelloedd gwely, sy'n golygu na fyddai modd i'r cleifion roi gwybod i'r staff bod angen help neu gymorth arnynt.

Roedd loceri'r cleifion, lle mae eitemau personol yn cael eu cadw dan glo, wedi'u lleoli mewn ystafell wastraff, lle roedd offer miniog, dillad brwnt a gwastraff clinigol yn cael eu storio cyn cael eu gwaredu. Nid yw'r ardal hon yn briodol ar gyfer loceri'r cleifion, ac mae angen i'r bwrdd iechyd ailystyried loceri'r cleifion i sicrhau nad ydynt wedi'u lleoli wrth ymyl gwastraff clinigol.

Roedd y cleifion ar y ddwy ward yn gallu defnyddio ffôn, a oedd mewn ystafell ar wahân i ffwrdd o'r wardiau er mwyn rhoi cyfle i'r cleifion siarad yn breifat.

Ar noson gyntaf ein harolygiad ar Ward Llwyfen, gwelsom fwrdd cipolwg ar statws cleifion² yn swyddfa'r nyrs, a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn cael gofal ar y ward. Roedd y byrddau wedi'u cynllunio mewn ffordd a oedd yn golygu bod modd gweld dynodyddion cleifion o'r coridor. Tynnwyd sylw'r staff at hyn, a gwnaethant symud dynodyddion y cleifion ar

² Bwrdd sy'n galluogi'r staff i gyfeirio'n gyflym at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

unwaith. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion yn gyson.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y canlynol:

- Caiff loceri'r cleifion eu symud
- Caiff gwybodaeth sy'n enwi'r cleifion ei chadw'n gyfrinachol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd y byrddau gwybodaeth yn y siambr aerglos wrth fynediad Ward Llwyfen yn dangos dyddiad Mis Tachwedd 2019. Mae'r arwyddion yn yr ardal hon yn dangos bod y wybodaeth yn cael ei diweddarau bob mis, ond nid oedd wedi cael ei diweddarau'n ddiweddar.

Nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos yn wardiau'r ysbyty i helpu cleifion a'u teuluoedd i ddeall y gofal a roddir iddynt, nac ychwaith fanylion am sefydliadau a all roi help a chefnogaeth i gleifion y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Roedd cardiau bach yn cael eu harddangos wrth ymyl yr orsaf nyrsys a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y gwasanaeth eirioli. Roedd rhai hysbysfyrdau'n cael eu harddangos ar y ddwy ward, ond nid oeddent yn cynnwys llawer o wybodaeth.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar y naill ward na'r llall am rôl AGIC na'r ffordd y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol o dan God Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983³.

Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gallai'r cleifion godi pryder am y gofal roeddent yn ei gael, gan gynnwys Gweithio i Wella GIG Cymru.⁴

³ Mae Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Diwygiwyd 2016) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal â rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol, mae'r Cod Ymarfer hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. <https://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=cy>

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion dreulio amser gyda theulu a ffrindiau; roedd ystafell i ymwelwyr ar gael, ond nid oedd llawer o wybodaeth i deuluoedd nac ymwelwyr yn yr ystafell hon.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd edrych ar yr hysbysfyrddau ar y ddwy ward a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sylw arbennig yn cael ei roi i'r wybodaeth a arddangosir. Mae'n rhaid i'r wybodaeth a arddangosir fod yn berthnasol i'r cleifion ac ymwelwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar y ward, gan gynnwys:

- Proses Gweithio i Wella y GIG
- Canllawiau ynghylch deddfwriaeth iechyd meddwl
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Bwyta'n iach a llesiant
- Y Gwasanaeth Eiriolaeth
- Y cyfleuster Llinell Iaith
- Deunydd Cymraeg
- Edrych ar yr hysbysfyrddau ar y ddwy ward a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei

⁴ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol.

Roedd cyfarfodydd bore'r cleifion wedi'u trefnu ar gyfer 10.00am. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y cleifion yn aros i'r cyfarfod gael ei gynnal. Fodd bynnag, daeth yn amlwg i'r cyfarfod gael ei ganslo heb roi gwybod i'r cleifion, a oedd yn ymddangos wedi'u cynhyrfu o ganlyniad i hyn.

Roedd laniardau yn cael eu rhoi i'r staff yn yr ysbyty a oedd yn siarad Cymraeg, er mwyn dangos eu bod yn gallu siarad yr iaith. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion ac ymwelwyr i gyfathrebu â'r staff yn Gymraeg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd y cleifion yn cael eu cynnal ac os bydd angen eu canslo, mae'n rhaid cyfleu'r rheswm am hyn i'r cleifion.

Gofal amserol

Roedd y ward yn cynnal cyfarfod rheoli ar statws y gwelyau bob dydd Llun i bennu faint o'r gwelyau a oedd yn cael eu defnyddio, ac i drafod y cleifion a oedd wedi cael eu hanfon i wardiau eraill sy'n rhan o'r bwrdd iechyd, neu i ddarparwyr annibynnol.

Roedd cofnodion y cyfarfodydd a welsom yn nodi bod angen gofal cleifion mewnol ar fwy o gleifion yn aml na'r gwelyau a oedd ar gael gan y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn dangos bod mwy o ddefnydd rheolaidd yn cael ei wneud o welyau iechyd meddwl i oedolion y bwrdd iechyd na'r nifer sydd ar gael.

Gwelsom fod angen gofal cleifion mewnol ar fwy o gleifion ar y wardiau derbyn a thriniaeth na'r gwelyau a oedd ar gael gan y bwrdd iechyd. Mae hyn wedi arwain at anfon rhai o'r cleifion i gysgu allan ar y wardiau diogelwch isel yn yr ysbyty lle roedd gwely ar gael. Nid yw hyn yn dilyn yr egwyddor o ran y gofal lleiaf cyfyngol. Nid digwyddiad ynysig oedd hyn, ac roedd yn dangos bod angen adolygu darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion y bwrdd iechyd er mwyn diwallu anghenion ei boblogaeth yn y ffordd orau posibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn adolygu nifer y gwelyau a'r ddarpariaeth sydd ar gael fel rhan o wasanaethau iechyd meddwl oedolion, er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion ei boblogaeth mewn modd amserol.

Hawliau pobl

Roedd arferion y staff a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig y bwrdd iechyd yn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd y staff a'r cleifion fod cyfyngiadau ar rai eitemau ar yr uned. Dywedodd y cleifion wrthym fod cyfyngiadau cyffredinol ar waith mewn perthynas â chael diodydd ffisiog a choffi. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfyngiadau cyffredinol a sicrhau y caiff unrhyw gyfyngiadau a roddir ar y cleifion eu teilwra i'r unigolyn, a bod y gofal a gynllunnir yn cofnodi rheswm cymesur y gellir ei gyfiawnhau am y cyfyngiad.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod meysydd i'w gwella yn y ffordd y cymhwysir y canllawiau a nodir yng Nghod Ymarfer Cymru Diwygiedig 2016 Deddf Iechyd Meddwl 1983, a ddisgrifir yn fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu arfer cysgu allan lle, os na fydd digon o welyau, mae'n rhaid i'r cleifion dreulio noson ar ward arall. Yn ystod arolygiad AGIC blaenorol, rhoddwyd cynllun gwella i'r bwrdd iechyd yn nodi bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yn llawn yr effaith ar hawliau cleifion unigol pan fydd yn ofynnol iddynt gysgu allan ar ward fwy cyfyngedig. Rhoddodd y bwrdd iechyd sicrwydd y byddai'r canllawiau ar gysgu allan yn cael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys y wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi i'r cleifion sy'n gorfod cysgu allan.

Nid oedd y polisi a welsom yn ystod yr arolygiad hwn wedi cael ei adolygu na'i ddiweddarau ers mis Awst 2018. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd nodiadau'r cleifion yn cofnodi rhesymeg glir, na barn y claf na'i gydsyniad, ar ôl iddo gael ei symud o un ward i gysgu allan ar ward fwy cyfyngedig. Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r polisi cysgu allan o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y canlynol:

Caiff cyfyngiadau cyffredinol eu hadolygu a chaiff unrhyw gyfyngiadau a roddir ar y cleifion eu teilwra i'r unigolyn a'u cynnwys mewn cynlluniau gofal.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Nid oedd gan y naill ward na'r llall brosesau strwythuredig ar gyfer casglu adborth gan gleifion na pherthnasau a gofalwyr. Roedd blychau awgrymiadau ar y wardiau, ond nid oedd unrhyw feiros na phapur ar gael i sicrhau bod y cleifion a'r ymwelwyr yn gallu ysgrifennu unrhyw awgrymiadau. Hefyd, nid oedd unrhyw wybodaeth i roi adborth i deuluoedd ar y gwelliannau a wnaed ar sail yr awgrymiadau a gafwyd gan y cleifion ac aelodau o'u teuluoedd.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y ward eu bod yn ceisio datrys cwynion yn syth lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd proses ar waith gan y bwrdd iechyd hefyd, yn rhoi cyfle i'r cleifion uwchgyfeirio pryderon drwy weithdrefn gwyno Gweithio i Wella'r bwrdd iechyd. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'n rhaid i'r ddwy ward arddangos gwybodaeth am broses Gweithio i Wella y GIG.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod modd i'r cleifion a'r ymwelwyr roi adborth
- Bod gan y ddwy ward system i roi gwybod i deuluoedd am y gwelliannau a wnaed ar sail yr adborth a gafwyd gan y cleifion a'r ymwelwyr.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion. Gwelsom fod y staff yn cwblhau'r prosesau a'r dogfennau clinigol fel sy'n ofynnol.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau a diweddarau polisïau, a bod angen gwneud gwelliannau sylweddol mewn perthynas â chydymffurfiaeth â hyfforddiant staff.

Gofal diogel

Edrychodd y tîm arolygu ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant staff ar Ward Llwyfen a Ward Masarn. Rhoddwyd rhestr i ni o gydymffurfiaeth â hyfforddiant staff gorfodol ar y ddwy ward. Roedd y ffigurau hyfforddiant ar gyfer Ward Masarn yn dangos bod cydymffurfiaeth yn isel iawn. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd mynediad i'r uned a wardiau iechyd meddwl yn ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Gallai'r staff gael mynediad i'r wardiau drwy ddefnyddio cardiau adnabod y bwrdd iechyd, ac roedd yr ymwelwyr yn defnyddio'r seinwyr a oedd ar gael wrth ymyl y drws i mewn i'r ward.

Roedd pwyntiau galw nyrsys o amgylch y wardiau, ond nid yn ystafelloedd gwely'r cleifion. Pe byddai claf yn cael anawsterau neu mewn trallod yn ei ystafell wely, ni allai gael sylw'r staff yn brydlon. Mae angen edrych ar hyn, er mwyn cadarnhau sut y dylai claf alw am gymorth.

Roedd y staff yn gallu defnyddio larymau personol i alw am gymorth pe bai angen, ond dywedodd y staff wrthym fod ardaloedd o'r ysbyty lle nad oedd y larymau yn gweithio, megis y grisiau a'r ardd ar Ward Llwyfen, lle nad oedd y

larymau'n gweithio o gwbl. Roedd hyn yn peryglu diogelwch y staff a'r cleifion. Yn ogystal â hyn, nid oedd unrhyw ddrychau arsylwi i helpu'r staff i sicrhau eu bod yn gallu mynd i ardaloedd cudd neu gorneli yn ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y tîm uwch-reolwyr wedi'i hysbysu am y mater hwn. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu darpariaethau diogelwch ar gyfer y staff yn yr ysbyty, a rhaid ystyried rhoi larymau personol sy'n gweithio i'r staff ym mhob ardal o'r ward, a gosod drychau arsylwi a fydd yn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion ar y wardiau.

Roedd nifer o dorwyr clymiadau ar gael ar bob un o'r wardiau i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio. Yn ystod yr arolygiad, roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn ymwybodol o leoliad y torwyr clymiadau. Ar noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom eitem y gellid ei defnyddio fel clymiad yn ystafell un o'r cleifion. Tynnwyd sylw'r staff at hyn, a chafodd ei symud ar unwaith.

Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg pwyntiau clymu, ond roedd yr archwiliad ond yn tynnu sylw at y drysau, ac nid oedd yn cynnwys rhannau penodol o'r drws. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r archwiliad clymiadau a sicrhau ei fod yn fwy penodol.

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu defnyddio ac y byddai'r staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y cleifion yn cael eu rhwystro'n gorfforol mewn ffordd ddiogel, ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod modd i'r cleifion hysbysu'r staff o'u hystafelloedd gwely pan fydd angen cymorth arnynt
- Bod darpariaethau diogelwch ar gyfer y staff yn yr ysbyty yn cael eu hadolygu i sicrhau bod larymau personol dibynadwy ar gael iddynt, a drychau arsylwi er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion ar wardiau'r ysbyty.
- Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r archwiliad clymiadau a sicrhau ei fod yn fwy penodol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd y bwrdd iechyd yn cyflogi staff cadw tŷ penodol ar gyfer y wardiau. Roedd amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau

rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty, ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn ôl y gofyn. Roedd holl ardaloedd cymunedol yr ysbyty yn lân ac yn daclus yr olwg.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi.

Nid oedd unrhyw gynhyrchion hylendid dwylo ar gael wrth fynedfa'r wardiau. Byddem yn argymhell y dylid sicrhau bod cynhyrchion hylendid dwylo ar gael yn y siambrau aerglos at ddefnydd y staff, y cleifion a'r ymwelwyr. Mae cleifion yng nghwmni aelod o'r staff bob amser yn yr ardaloedd hyn, a fydd yn atal unrhyw gamddefnydd o'r cynhyrchion hylendid dwylo.

Roedd polisi rheoli heintiau cyfredol ar gyfer offer miniog ac anafiadau a achosir gan nodwyddau, ond nid yw'r polisi rheoli heintiau cyffredinol yn gyfredol.

Roedd cyfleuster golchi dillad ar Ward Masarn, ond nid oedd peiriant golchi dillad i'r cleifion ei ddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Sicrhau bod cynhyrchion hylendid dwylo ar gael wrth fynedfa'r ysbyty
- Diweddarau'r polisi rheoli heintiau cyffredinol
- Sicrhau bod peiriant golchi dillad ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio ar Ward Masarn.

Maeth a hydradu

Roedd bwydlenni pythefnos o hyd i'w gweld ar y ward, ar bwys drws yr ystafell arlwy. Mae'r cleifion yn cael pedwar pryd bwyd y dydd, sef brecwast, cinio, pryd o fwyd gyda'r nos a swper.

Dywedodd y staff fod y cleifion yn dewis eu prydau bwyd ymlaen llaw, ac os oedd claf yn newid ei feddwl roedd modd rhoi dewis arall iddo fel arfer.

Cawsom adborth cymysg am y bwyd gan y cleifion. Dywedodd rhai ohonynt ei fod yn undonog, ond nododd eraill ei fod yn flasus. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd i'r cleifion roi adborth ar y bwyd a ddarperir, a bod eu barn yn cael ei hystyried wrth gynllunio dewisiadau bwyd yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau presennol o ran sicrhau bod diodydd poeth ac oer ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd i'r cleifion roi adborth, a bod eu barn yn cael ei hystyried wrth gynllunio dewisiadau bwyd yn y dyfodol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo. Hefyd, roedd y trolïau meddyginiaeth yn cael eu rhoi'n sownd yn wal yr ystafell clinig, er mwyn atal rhywun heb awdurdod rhag eu symud.

Roedd tymereddau'r oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cofnodi gan amlaf, ond gwelsom nad oeddent wedi'u cofnodi ar rai diwrnodau ar y ddwy ward. Yn ogystal, nid oedd tystiolaeth bod tymheredd yr ystafell glinigol ar y ddwy ward yn cael ei nodi. Mae'n rhaid gwirio tymereddau'r oergelloedd a'r ystafelloedd clinig i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio o fewn yr ystod dymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchwyr.

Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinigol ar y ddwy ward, a gwelsom fod popeth yn gywir ac eithrio nifer bach o lofnodion tystion a oedd ar goll yn y llyfr Cyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio ar Ward Llwyfen. Roedd tystiolaeth bod pum llofnod ar goll o'r llyfr Cyffuriau a Reolir rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2020. Daethpwyd â'r mater hwn i sylw rheolwr y ward, ac roeddem yn fodlon y byddai'n cael ei drafod â'r staff.

Wrth archwilio'r cwpwrdd cyffuriau a reolir, gwelsom fod arian y cleifion yn cael ei storio yn yr ardal hon. Nid oes system fonitro ffurfiol ar waith ar gyfer cofnodi'r arian sy'n cael ei roi i mewn a'i dynnu allan. Mae'n rhaid adolygu'r system hon a rhoi polisi ar waith i ddiogelu'r cleifion a'r staff.

Nid oedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu storio gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth⁵ cyfatebol ar Ward Llwyfen yn achos pedwar o'r cleifion. Ar

⁵ Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom y rownd feddyginiaeth yn cael ei chynnal, er nad oedd y staff yn gallu cyfeirio at y tystysgrifau Cydsynio i driniaeth. Gall yr arfer hon gynyddu'r posibilrwydd o wneud camgymeriadau wrth roi cyffuriau. Mae'r arferion gorau yn sicrhau bod y staff sy'n rhoi'r feddyginiaeth yn gallu cyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth yn adran 58 o'r Ddeddf. Roedd y staff yn gallu dod o hyd i'r gwaith papur pan ofynnwyd iddynt, a gwnaethant unioni'r pryderon, ond mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth bob amser.

Yn ogystal, nid oedd siartiau cyffuriau'r cleifion yn cael eu llenwi'n llawn bob amser. Nid oedd statws cyfreithiol y cleifion yn cael ei gofnodi bob amser, ac mewn cofnodion eraill nid oedd unrhyw wybodaeth yn yr adran ar alergeddau. Roedd hepgor statws cyfreithiol y cleifion ac absenoldeb tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn faes yr oedd angen ei wella y tynnwyd sylw ato mewn arolygiad blaenorol o Hafan y Coed. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff statws cyfreithiol y cleifion ei gofnodi bob amser, ac y caiff tystysgrifau cydsynio i driniaeth eu cadw gyda chofnodion y cleifion. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal gwiriadau cadarn i sicrhau bod y staff ar bob ward yn Hafan y Coed yn cydymffurfio.

Gwnaethom arsylwi ar y staff yn trafod meddyginiaeth â'r cleifion ar rowndiau ward, a gwelsom fod y trafodaethau hyn â'r cleifion wedi cael eu dogfennu a'u cofnodi yng nghynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion. Roedd yn siomedig gweld nad oedd tap dŵr oer yn yr ystafelloedd clinigol i roi cyfle i'r staff roi dŵr i'r cleifion pan oeddent yn cymryd eu meddyginiaeth. Ar y pryd, roedd y staff yn rhoi meddyginiaeth i'r cleifion gan ddefnyddio jygiau dŵr a oedd yn cael eu rhoi yn yr ystafell glinigol. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r arfer hon a gosod cyflenwad dŵr oer yn y ddwy ystafell glinigol.

Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa, ac roedd archwiliadau'n cael eu cynnal ar y siartiau meddyginiaeth a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth ar y ddwy ward.

Gwnaethom ofyn am gael gweld detholiad o bolisiâu ystafelloedd clinig. Cawsom amrywiaeth o bolisiâu, ond, ar ôl edrych arnynt, nodwyd bod y rhan

fwyaf o'r fersiynau a gawsom wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiad adolygu. Roedd y polisïau canlynol wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiad adolygu:

- Atal a rheoli sefyllfaoedd treisgar ac ymosodol - Adolygu erbyn mis Chwefror 2016
- Polisi ardal gofal ychwanegol – Adolygu erbyn mis Hydref 2016
- Rheoli heintiau – Adolygu erbyn mis Awst 2019
- Polisi gweithredu'r ward – Angen ei adolygu
- Rheoli sylweddau – Adolygu erbyn mis Awst 2018

Ni chawsom sicrwydd bod y staff yn cael y canllawiau mwyaf cyfredol i lywio eu hymarfer proffesiynol. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob polisi yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod tymereddau'r oergelloedd a'r ystafelloedd clinigol yn cael eu nodi a'u cofnodi yn gyson
- Bod y dystysgrif cydsynio i driniaeth fwyaf diweddar yn cael ei chadw gyda'r siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth gyfatebol
- Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi'n gywir ar gyfer Cyffuriau a Reolir bob amser.
- Bod cyflenwad dŵr oer ar gael yn y ddwy ystafell glinigol.
- Bod pob polisi yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau
- Bod archwiliad rheolaidd o'r polisïau yn cael ei gynnal i sicrhau bod staff y ward yn cael gafael ar y fersiwn fwyaf diweddar, ac yn cyfeirio ati.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisïau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos y broses o wneud atgyfeiriad diogelu. Gwelsom dystiolaeth bod y broses ddiogelu wedi cael ei defnyddio, a

gwelsom fod y bwrdd iechyd yn gyffredinol yn rhannu system gadarn ar gyfer rheoli'r broses ddiogelu.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau wythnosol o'r cyfarpar dadebru yn cael eu cynnal, ac roedd y staff yn nodi pryd y'u cynhaliwyd er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac yn gyfredol, ond nodwyd bod rhai o'r padiau electrod ar Ward Llwyfen wedi mynd heibio'u dyddiad defnyddio. Tynnwyd sylw'r staff at y mater hwn a rhoddwyd padiau newydd yn lle'r hen rai ar unwaith.

Gwelsom nad oedd neb yn cofnodi'r ffaith bod y cyfarpar clinigol a'r cyfarpar brys yn cael eu glanhau. Gwnaethom siarad â rheolwr y ward a gadarnhaodd y byddai colofn arall yn cael ei hychwanegu at y ffurflen bresennol ar gyfer archwiliadau i gofnodi a dangos eu bod yn cael eu glanhau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y dyddiad dod i ben ar gyfer eitemau unigol yn cael ei nodi fel rhan o'r gwaith o archwilio cyfarpar meddygol
- Bod archwiliadau glanhau yn cynnwys cyfarpar meddygol a chyfarpar brys.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adroddiad, mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Ceir manylion am y diffygion hyn, ynghyd â chymau gweithredu'r bwrdd iechyd, yn Atodiad C.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Yn ystod ein trafodaethau â staff y ward a'r uwch-reolwyr, cawsom nifer o enghreifftiau lle roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ar y ward ac yn y bwrdd iechyd yn fwy cyffredinol. Y nod oedd cynorthwyo'r broses o foderneiddio'r gofal. Roedd yn gadarnhaol clywed y staff yn sôn am syniadau arloesol a oedd yn cael eu cefnogi gan yr uwch-reolwyr, i ddatblygu a gwella'r wardiau a gwella profiad y cleifion. Yn ystod trafodaethau â'r staff,

daeth yn amlwg bod gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysbyty. Roedd prosiectau ymchwil yn mynd rhagddynt mewn perthynas â digartrefedd a'i effaith ar oedi cyn rhyddhau cleifion, ac roedd y bwrdd iechyd yn edrych ar y galw am ward diogelwch isel i fenywod yn Hafan y Coed, a'r angen am ward o'r fath.

Roedd un o reolwyr y ward hefyd wedi cael cyfarpar campfa drwy elusen iechyd. Roedd aelodau enwebedig o'r staff yn mynd ar gwrs hyfforddwr campfa i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyfarpar campfa, ac i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd a llesiant i'r cleifion a'r staff.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw mewn fformat electronig gan amlaf, ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd. Roedd y system yn drefnus iawn ac yn hawdd iawn ei defnyddio. Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Gwnaethom fwrw golwg dros sampl o gofnodion y cleifion ar bob un o'r wardiau. Roedd yn amlwg bod staff o'r timau amlddisgyblaethol yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd a oedd yn darparu dogfen fyw am y claf a'i gofal.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau dogfennaeth gofal a'r mwyafrif o'r asesiadau risg yn llawn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pedwar claf ar Ward Llwyfen a Ward Masarn. Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a'u bod, ar y cyfan, yn dilyn y canllawiau a nodir yng Nghod Ymarfer Cymru. Gwnaethom hefyd siarad â'r cleifion i sicrhau eu bod wedi cael gwybod am eu hawliau a'u hawliadau.

Gwnaethom siarad â Thîm Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl mewn perthynas â'n canfyddiadau ynghylch y ffaith nad oedd ffurflenni cydsynio i driniaeth i'w gweld yn nodiadau pedwar claf ar noson gyntaf yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod pob ffurflen cydsynio i driniaeth a gaiff ei hanfon i'r ward, yn dod gyda llythyr yn gofyn i'r ward gadw copi o'r dystysgrif yn y cofnodion, a chopi arall gyda'r siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth, a dangoswyd tystiolaeth ddogfennol i ni yn cadarnhau hynny. Roedd hyn yn dangos bod angen i reolwyr y wardiau sicrhau cydymffurfiaeth a chysondeb yn y mater hwn ar y wardiau.

Yn ystod ein hadolygiad o'r gwaith papur, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad oedd y ffurflenni absenoldeb o dan Adran 17⁶ yn cynnwys adran i gofnodi cyfranogiad y teulu, lle y bo'n berthnasol. Roedd Tîm Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn barod i dderbyn ein canfyddiadau, a rhoddodd sicrwydd i ni y byddai'n adolygu'r wybodaeth hon ac yn ei chynnwys yn y ffurflenni. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y ffaith nad oedd cofnodion y cleifion yn cynnwys ffotograffau ohonynt, a allai helpu i ddiogelu'r cleifion pe byddent yn ffoi.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am strwythur diwygiedig Tîm Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a oedd wedi cynyddu nifer y staff ers ein harolygiad blaenorol. Gwnaeth y staff ganmol y cyfleoedd hyfforddiant, yn ogystal â'r cymorth ar gyfer datblygu'r systemau tîm er mwyn rheoli'r broses o roi'r Ddeddf ar waith.

Roedd Tîm Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar am hyfforddiant ychwanegol. Roedd yn galonogol gweld bod y tîm yn bresennol ar adeg trosglwyddo sifftiau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am faterion allweddol sy'n codi o archwiliadau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Roedd y tîm hefyd yn cynllunio mentrau newydd i geisio codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf drwy gynnal digwyddiadau rhannu gwybodaeth yn ardal dderbynfa'r ysbyty, er mwyn ceisio rhoi cyngor a chymorth i gleifion a theluoedd mewn perthynas â'r Ddeddf. Nodwyd bod hyn yn enghraifft dda o arfer broffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod cofnodion y cleifion yn cynnwys ffotograffau er mwyn helpu i adnabod y claf.
- Bod ffurflenni absenoldeb o dan Adran 17 yn cynnwys cyfranogiad y teulu.

⁶ Mae absenoldeb o dan Adran 17 yn caniatáu i glaf sy'n cael ei gadw adael yr ysbyty

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pedwar claf i gyd.

Gwnaethom adolygu sampl o bum ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr, ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddyliol a chorfforol. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn drefnus iawn ac yn hawdd eu defnyddio. Roedd tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal, a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Roedd y mwyafrif o gofnodion y cleifion a welsom yn cynnwys asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr drwy gydol cyfnod derbyn y claf, a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y wardiau. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd yr hanes risgiau wedi cael ei diweddarau yng nghofnod un o'r cleifion, a bod y cynllun rheoli yn wag. Wrth ystyried y ffaith bod yr unigolyn hwn wedi peri risg i'r cleifion mewn ardal benodol o'r ysbyty, byddem wedi disgwyl y byddai'r wybodaeth hon wedi cael ei darparu er mwyn nodi unrhyw risgiau y mae'r unigolyn yn eu peri i'r cleifion.

Yn ogystal, nodwyd nad oedd anghenion nas diwallwyd y cleifion mewn rhai cynlluniau gofal yn cael eu cofnodi yn y nodiadau a welsom. Mae'n bwysig y caiff anghenion nas diwellir eu dogfennu fel y gall y tîm amlddisgyblaethol adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn ystyried opsiynau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod hanes o risgiau a chynlluniau rheoli yn cael eu diweddarau i gynnwys unrhyw risgiau i'r cleifion.
- Bod anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi yng nghynlluniau gofal cleifion a bod tystiolaeth o hyn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r

gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

Roedd rheolwyr y wardiau yn dangos arloesedd a'r awydd i wneud gwelliannau yn yr uned, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r cleifion.

Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chwblhau hyfforddiant gorfodol, yn ogystal â systemau TG sy'n gallu cefnogi'r broses o gwblhau hyfforddiant.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos.

Roedd rheolwyr y ward yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymrwymedig ac uwch-reolwyr y bwrdd iechyd. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu darparu gan reolwyr y ward. Dywedodd y staff hefyd fod gwaith tîm a morâl y staff ar y ward yn dda. Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol gyda chydberthnasau da rhwng y staff a oedd i'w gweld yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd yn amlwg bod y staff yn ceisio darparu lefel uchel o ofal i'r grwpiau cleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd unrhyw achosion o atal corfforol yn cael eu cofnodi a'u hadolygu, fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau ac adolygu'r polisiâu ym meysydd atal a rheoli trais a sefyllfaoedd ymosodol a'r defnydd o'r ardal gofal ychwanegol.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar

ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol er mwyn cadw'r cleifion yn yr ysbyty yn ddiogel ar adeg ein harolygiad.

Roedd y staff yn dangos eu bod yn gweithio'n dda fel tîm ac roeddent i'w gweld yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr ac arweinyddiaeth eu rheolwyr.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau blynyddol y staff yn ffeiliau'r staff. Mae'r arfarniadau hyn yn rhoi llwyfan i'r staff drafod eu cyflogaeth a'u datblygiad proffesiynol, ac yn rhoi cyfle i'r rheolwyr roi adborth i'r staff ar eu gwaith. Dywedodd rhai o'r staff wrthym ei bod yn anodd cynllunio cyfarfodydd tîm, ac y byddai'r cyfarfodydd hyn yn cael eu brysio neu eu canslo yn aml oherwydd gofynion y wardiau. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lunio ffordd o sicrhau bod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal. Dylid cynllunio hyn fel bod y broses yn fwy ystyrlon, cefnogol a gwerthfawr i'r staff.

Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i rannu eu barn ar y gwelliannau y gellid eu gwneud, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i roi newidiadau ar waith lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, mynegodd uwch-aelodau o staff y wardiau bryderon am leihau amser y staff rheoli ychwanegol o dri diwrnod i un yr wythnos. Mae angen i uwch-staff y wardiau ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol eraill hefyd megis gweithredu fel rheolwyr gwelyau ar alwad. Mae'r gofynion ychwanegol hyn a roddir ar reolwyr y wardiau yn golygu na allant gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau craidd fel rheolwyr wardiau. O gofio hyn, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried atebion eraill i sicrhau bod rheolwyr y wardiau ar gael i roi cymorth a goruchwyliaeth i'r staff yn gyson.

Er bod nifer o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig, roedd dystiolaeth bod y bwrdd iechyd yn ceisio eu llenwi. Lle y bo'n bosibl, roedd y ward yn defnyddio'i staff ei hun a staff rheolaidd o blith staff banc y bwrdd iechyd i lenwi'r bylchau staffio hyn. Byddai unrhyw staff asiantaeth yn cael sesiwn sefydlu ar ddechrau

pob sifft. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff yn gweithio sifftiau ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni'r rotas er mwyn cynnal parhad y gofal. Gwnaethom adolygu rotas staff a siarad â rheolwr y ward a gadarnhaodd fod sifftiau ychwanegol yn cael eu monitro er mwyn atal y staff rhag gweithio oriau rhy hir a all arwain at flinder.

Dywedodd y staff wrthym fod achlysuron lle roedd staff wedi cael cynnig swyddi yn llwyddiannus, ond bod oedi yn aml cyn i aelodau newydd o'r staff ddechrau gweithio. Yn ogystal, ceir oedi pellach pan fydd aelodau newydd o'r staff yn dechrau gweithio, gan fod uwch-aelodau o staff y wardiau yn ei chael hi'n anodd cael awdurdodiad ar gyfer swyddogaethau gweinyddol megis mynediad at systemau TG a chyfrineiriau ar gyfer aelodau newydd o'r staff. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ei system olrhain cyn cyflogi a sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth benodi staff newydd, a sicrhau bod yr holl brosesau gweinyddol i alluogi'r staff i gyflawni eu rôl yn llawn yn cael eu gwneud mewn modd amserol.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir i'r staff godi unrhyw bryderon ac roedd y staff y gwnaethom eu holi yn gwybod am y polisi. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol hefyd ar gael, yn ogystal â gwasanaethau llesiant, sy'n rhoi therapïau cyfannol i'r staff os bydd angen.

Gwnaeth yr ystadegau hyfforddiant a welsom yn ystod yr arolygiad godi pryderon nad oedd y staff yn cydymffurfio o ran hyfforddiant gorfodol, a gofynnwyd i'r bwrdd iechyd sicrhau hyn ar unwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod prosesau ar waith i sicrhau y caiff cyfarfodydd staff rheolaidd eu cynnal
- Nad oes unrhyw oedi y gellir ei osgoi wrth gynnal gwiriadau cyn cyflogi
- Bod swyddi gwag yn cael eu llenwi a mentrau'n cael eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr ysbyty.
- Bod y pryderon a godwyd gan uwch-aelodau o staff y wardiau mewn perthynas â lleihau'r amser rheoli yn cael eu hystyried a bod ateb priodol yn cael ei roi ar waith.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Nid oedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth cyfatebol yn achos pedwar o'r cleifion ar Ward Llwyfen. Ar noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom y rownd feddyginiaeth yn cael ei chynnal, er nad oedd y staff yn gallu cyfeirio at waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl. | Gall yr arfer hon gynyddu'r posibilrwydd o wneud camgymeriadau wrth roi cyffuriau. | Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at hyn ar unwaith. | Roedd y staff yn gallu dod o hyd i'r gwaith papur pan ofynnwyd iddynt, a gwnaethant unioni'r pryderon. |

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Hafan y Coed

Ward/uned(au): Ward Llwyfen a Ward Masarn

Dyddiad arolygu: 10 - 12 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|----------------|
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i roi gwybod i AGIC am y camau a gynlluniwyd a'r amserlenni i sicrhau y caiff y polisi cysgu allan ei adolygu a'i ddiweddarau. | 6.2 Hawliau Pobl | Bydd yr uwch-reolwyr nyrsio ar gyfer gwasanaethau diogelwch isel, wardiau ardal ac adsefydlu yn adolygu'r Weithdrefn Cysgu Allan ac yn ei diweddarau. | Nyrs Arwain, Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion | 31 Mawrth 2020 |
| | | Bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn cyfarfod â rheolwyr y wardiau a chydgysylltwyr sifftiau i drafod y gwahaniaethau o ran terminoleg ar | Cyfarwyddwr Nyrsio | 3 Mawrth 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|----------------|
| | | <p>gyfer llif y cleifion a rheoli risgiau clinigol, a sut y dylid dogfennu'r gwahaniaethau hynny. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y weithdrefn wedi'i diweddarau.</p> <p>Caiff y Weithdrefn ei thrafod a'i dilysu yng nghyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd Meddwl Clinigol</p> | Cyfarwyddwr Nyrso | 23 Ebrill 2020 |
| <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn perthynas â chysgu allan yn cael eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion a bod y cofnodion yn cynnwys rhesymeg glir am y penderfyniad. Dylid hefyd gofnodi barn y cleifion am gael eu symud i ward fwy cyfyngedig.</p> | | <p>Bydd yr uwch-reolwyr nyrso ar gyfer wardiau diogelwch isel, wardiau ardal ac adsefydlu yn datblygu templed i ategu'r penderfyniad i symud claf i amgylchedd diogelwch isel neu amgylchedd amhriodol arall.</p> | Nyr Arwain, Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion | 31 Mawrth 2020 |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i wella cyfraddau cydymffurfio mewn perthynas â hyfforddi'r aelodau hynny o'r staff nad ydynt yn cydymffurfio ar hyn o bryd.</p> | | <p>Bydd rheolwr y ward yn blaenoriaethu'r gwaith o gefnogi'r chwe aelod o'r staff, sy'n cydymffurfio â llai na 30% o'r gofynion, i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol.</p> | Rheolwr y Ward | 31 Mawrth 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---------------------------------------|-------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|----------------------------------------|
| | | <p>Bydd y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl i Oedolion yn sicrhau bod mwy o gyfrifiaduron ar gael i'r staff</p> <p>Bydd Ward Masarn yn cydymffurfio ag 80% o'r gofynion o fewn chwe mis</p> | <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Rheolwr y Ward</p> | <p>31 Mawrth 2020</p> <p>Medi 2020</p> |

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hafan y Coed

Ward/uned(au): Ward Llwyfen a Ward Masarn

Dyddiad arolygu: 10 - 12 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|----------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y waliau sydd wedi'u difrodi yn cael eu hatgyweirio. | 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd | Gwnaeth rheolwr y ward SR roi gwybod i'r adran ystadau am hyn. | Ystadau | 30/6/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei bod yn haws i'r cleifion fynd i'r ardd. | 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd | Mae'r wardiau wedi cael awdurdodiad i gyfnewid a gwella mynediad i'r cleifion hynny y mae eu symudiadau yn fwy cyfyngedig. Mae nifer o gamau/ asesiadau risg wedi cael eu cynnal i | Rheolwyr y wardiau/uwch-nyrs | 30/6/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
| | | hwyluso hyn. | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd i'r cleifion gael diodydd poeth ac oer a byrbrydau yn ystod y dydd. | 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd | Mae modd i'r cleifion cael diodydd poeth ac oer bellach. Mae byrbrydau ar gael, sy'n annog y cleifion i gael ffrwythau/smwddis i hybu dewisiadau iachach. | Rheolwr y ward | 24/3/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y ward. | 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd | Mae nyrs gweithgareddau ar gael bob dydd rhwng 9am a 5pm a chynigir gweithgareddau i bawb sydd am gymryd rhan. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o'r angen i annog y cleifion sy'n awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y ward, i wneud hynny. | Rheolwr y ward | 24/3/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wardiau yn edrych yn llai clinigol ac yn fwy croesawgar. | 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd | Mae'r Gwasanaeth Diogelwch Isel wrthi'n datblygu'r gwasanaethau ar hyn o bryd, a bydd hyn yn arwain at Ward Masarn a Ward Llwyfen yn cyfnewid wardiau. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, bydd y tîm yn mynd ati i leihau golwg clinigol y ward, mewn partneriaeth â defnyddwyr y gwasanaethau | Rheolwr y ward | 25/9/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------------------------|
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff loceri'r cleifion eu symud. | 10. Urddas a pharch | Mae'r loceri wedi cael eu symud i ystafell dan glo ar y ward. | Rheolwr y ward | Cwblhawyd - 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth sy'n enwi'r cleifion ei chadw'n gyfrinachol. | 10. Urddas a pharch | Mae mesurau dros dro wedi cael eu cymryd i ddileu dynodyddion y cleifion. Archebwyd bwrdd gwyn mawr a drysau diogelwch ar gyfer y ddwy ward. Mae pob siart arsylwi yn cael ei chadw yn y swyddfa nyrsio. | Rheolwr y ward | Cwblhawyd - 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar y ward, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Proses Gweithio i Wella y GIG • Canllawiau ynghylch deddfwriaeth iechyd meddwl • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru • Bwyta'n iach a llesiant • Y Gwasanaeth Eiriolaeth • Y cyfleuster Llinell Iaith | 9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion | Mae llawer o'r wybodaeth hon ar gael yn y Pecyn Gwybodaeth a roddir i'r cleifion ar adeg eu derbyn. Cysylltir â'r Gwasanaeth Eirioli a Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru i gael posteri/taflenni newydd Eir i'r afael â'r mater o arddangos diben a manylion cyswllt AGIC Caiff gwybodaeth am fwyta'n iach ei harddangos yn yr ystafell fwyta. Ceir hysbysfwrdd cyfathrebu cymunedol i arddangos y wybodaeth uchod, a chaiff y wybodaeth ei diweddarau yn ôl y gofyn. | Rheolwr y ward | I'w gwblhau erbyn 25/08/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------|--------------|
| <ul style="list-style-type: none"> Deunydd Cymraeg. <p>Edrych ar yr hysbysfyrddau ar y ddwy ward a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.</p> | | | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd y cleifion yn cael eu cynnal ac os bydd angen eu canslo, mae'n rhaid cyfleu'r rheswm am hyn i'r cleifion. | 18. Cyfathrebu'n effeithiol | Mae'r hysbysfwrdd cyfathrebu cymunedol bellach yn nodi'r newyddion diweddaraf, a'r rhesymeg dros unrhyw achos o ganslo. | Rheolwr y ward | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn adolygu nifer y gwelyau a'r ddarpariaeth sydd ar gael fel rhan o wasanaethau iechyd meddwl oedolion, er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion ei boblogaeth mewn modd amserol. | Gofal Amserol | Cynhelir adolygiad o nifer y gwelyau a'r model gwasanaeth presennol | Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Oedolion | Rhagfyr 2020 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw gyfyngiadau cyffredinol eu hadolygu ac y caiff cyfyngiadau a roddir ar y cleifion eu teilwra i'r unigolyn a'u cynnwys mewn cynlluniau gofal. | 2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol | Mae cynlluniau gofal pob claf yn cynnwys gwybodaeth am gael diodydd ffisiog/cludfwyd ac ati. Y rhesymeg dros hyn yw hybu byw'n iachach a chanolbwyntio ar lesiant corfforol | Rheolwr y ward | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd i'r cleifion a'r ymwelwyr roi adborth. | 5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio | Gosodwyd arwydd yn ystafell yr ymwelwyr yn gofyn am sylwadau/awgrymiadau/canmolïaeth/cwynion ac | Rheolwr y ward | 24/03/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|------------------------------------|
| | adborth | mae papur/beiros ar gael iddynt adael adborth. Mae blwch awgrymiadau ar gael ar y ward i'r cleifion ei ddefnyddio. | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y ddwy ward system i adrodd yn ôl i deuluoedd am y gwelliannau a wnaed ar sail yr adborth a gafwyd gan y cleifion a'r ymwelwyr. | 5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth | Caiff aelodau o'r teulu eu gwahodd i fynd ar rowndiau ward/cyfarfodydd timau amlddisgyblaethol i drafod unrhyw bryderon. Mae'r staff ar gael bob amser i drafod â'r perthnasau, a roddir rhif ffôn y ward i berthnasau bob tro. Mae croeso iddynt ffonio ar unrhyw adeg. | Rheolwr y ward | 24/03/20 |
| Darparu gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd i'r cleifion gysylltu â'r staff o'u hystafelloedd gwely pan fydd angen cymorth arnynt. | 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch | Gosodir clychau galw yn yr ystafelloedd i bobl anabl | Rheolwr y Gyfarwyddiaeth | I'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2020 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff darpariaethau diogelwch ar gyfer y staff eu hadolygu i sicrhau bod larymau personol dibynadwy ar gael iddynt, a drychau arsylwi a fydd yn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r | 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch | Rhodddwyd ffonau symudol i'r staff, ac archebwyd dyfeisiau i'r sawl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain wrth dywys y cleifion yn yr ardd ac yn y | Rheolwr y ward | 24/03/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|-----------|
| cleifion ar y wardiau. | | gymuned. | | |
| Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r archwiliad clymiadau a sicrhau ei fod yn fwy penodol. | 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch | Mae'r archwiliad pwyntiau clymu yn gyfredol, ac mae wedi nodi risg sylweddol. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i'r adran Ystadau. Yn y cyfamser, mae pob claf yn parhau i fod yn destun asesiadau risg rheolaidd, a rhoddir lefel arsylwi briodol ar waith ar eu cyfer ar sail hyn | Ystadau | 30/06/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynhyrchion hylendid dwylo ar gael wrth fynedfa'r ysbyty. | 13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi | Mae hyn wedi cael ei gwblhau ac maent ar gael yn lobi'r ward | Rheoli Heintiau | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisi rheoli heintiau cyffredinol ei ddiweddarau. | 13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi | Mae cynllun gwaith ar waith ar gyfer adolygu polisiâu atal a rheoli heintiau'r BIP yn rheolaidd. Caiff hyn ei oruchwylio gan grŵp atal a rheoli heintiau'r BIP, a fydd yn blaenoriaethu'r gwaith o adolygu polisiâu corfforaethol | Rheoli Heintiau | Medi 2020 |
| Mae peiriant golchi dillad ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio ar Ward Masarn. | 13. Atal a rheoli heintiau | Nodwyd ystafell sy'n ddiogel rhag tân ar Ward Llwyfen yn unig, a gofynnwyd am | Rheolwr y ward/ ystadau | 30/06/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
| | a dihalogi | gyflenwad trydan diwydiannol i weithredu dau beiriant golchi a sychu diwydiannol ar gyfer Ward Llwyfen a Ward Masarn. | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd i'r cleifion roi adborth, a bod eu barn yn cael ei hystyried wrth gynllunio dewisiadau bwyd yn y dyfodol. | 14. Maeth | Mae pob claf yn cael dewis o sawl pryd bwyd ar gyfer y diwrnod canlynol. Bydd hyn yn darparu ar gyfer yr holl ofynion deietegol penodol, Fegan/ Halal/ heb lwten ac ati | Arlwyo | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff tymereddau'r oergelloedd a'r ystafelloedd clinigol eu gwirio a'u cofnodi yn gyson. | 15. Rheoli meddyginiaethau | Caiff tymereddau'r oergelloedd eu cofnodi bob dydd ar ffurflenni gwirio'r ystafelloedd triniaeth. Caiff y dasg hon ei phennu gan y nyrs â chyfrifoldeb, a chaiff ei harchwilio bob trimis gan y tîm rheoli. Mae pob aelod o'r staff wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gwirio a chofnodi tymereddau'r oergelloedd yn gyson | Rheolwr y ward | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y | 15. Rheoli meddyginiaeth | Rhoddir pob ffurflen cydsynio gyda'r | Rheolwr y ward | 24/03/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|--------------|
| dystysgrif cydsynio i driniaeth ddiweddaraf yn cael ei chadw gyda'r siart cofnod rhoi meddyginiaeth gyfatebol. | au | siart meddyginiaeth, a bydd y staff yn edrych ar y ffurflen cyn rhoi meddyginiaeth Neilltuwyd rôl benodol i nyrs band 5 yn awr i weinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau y caiff y ffurflenni eu cwblhau, eu bod yn cofnodi meddyginiaethau'n gywir, a'u bod yn gyfredol. | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn llofnodi ar gyfer Cyffuriau a Reolir yn gywir bob amser. | 15. Rheoli meddyginiaeth au | Mae gweithdrefn glir ar waith i reoli meddyginiaeth a reolir, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddwy nyrs lofnodi bob amser. Mae pob aelod o'r staff wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chofnodi achosion o roi cyffuriau a reolir | Rheolwr y ward | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyflenwad dŵr oer ar gael yn y ddwy ystafell glinigol. | 15. Rheoli meddyginiaeth au | Rhoddwyd gwybod am hyn i'r adran Ystadau er mwyn gweld a ellir cael tap dŵr oer yn yr ystafell feddyginiaeth. | Ystadau | 30/06/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob | 15. Rheoli meddyginiaeth | Mae polisi sy'n gymwys i'r BIP cyfan ar | Cynghorydd | Rhagfyr 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------|
| polisi ei adolygu a'i ddiweddarau. | au | <p>gyfer rheoli polisïau, a chaiff hyn ei fonitro yn gyson, ac adroddir arno yn gyson drwy Bwyllgor Archwilio'r BIP. Mae adolygiad o'r polisïau canlynol yn mynd rhagddo ar hyn y bryd yn y Gyfarwyddiaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Atal a rheoli sefyllfaoedd treisgar ac ymosodol • Polisi ardal gofal ychwanegol • Polisi gweithredu'r ward | Nyrsio i'r Fferyllfa | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliad rheolaidd o'r polisïau ei gynnal i sicrhau bod staff y ward yn cael gafael ar y fersiwn fwyaf diweddar, a'u bod yn cyfeirio at y fersiwn honno. | 15. Rheoli meddyginiaeth au | Fel uchod | Cynghorydd Nyrsio i'r Fferyllfa | Rhagfyr 2020 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwaith o archwilio cyfarpar meddygol yn cynnwys nodi'r dyddiad dod i ben ar gyfer eitemau unigol. | 16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig | <p>Caiff yr ystafell driniaeth ei harchwilio bob mis (1^{af} o'r mis), a chofnodir hyn ar ffurflen archwilio'r ystafell driniaeth.</p> <p>Caiff hyn ei archwilio gan y tîm rheoli bob tri mis</p> <p>Atgoffwyd y staff bod angen edrych ar</p> | Rheolwr y ward | 24/03/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
| | | ddyddiadau dod i ben y cyfarpar meddygol | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau glanhau yn cynnwys cyfarpar meddygol a chyfarpar brys. | 16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig | Mae ffurflen archwilio'r ystafell driniaeth yn cynnwys adran ar lanhau i ddangos bod y cyfarpar a'r ystafelloedd yn cael eu glanhau bob wythnos Atgoffwyd y staff bod angen i'r archwiliadau glanhau gynnwys cyfarpar meddygol a chyfarpar brys | Rheolwr y ward | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys ffotograffau er mwyn helpu i adnabod y claf. | 20. Rheoli cofnodion | Byddwn yn gofyn am gydsyniad i gael ffotograffau o'r cleifion ac yn cadw'r ffotograffau yn eu nodiadau Caiff gwybodaeth am hyn ei gynnwys yn y pecyn Gwybodaeth/derbyn | Rheolwr y ward | 24/03/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffurflenni absenoldeb o dan adran 17 yn cynnwys cyfranogiad y teulu. | 20. Rheoli cofnodion | Rydym yn ystyried y teulu/perthnasau, a'r ffordd y bydd yr absenoldeb yn effeithio arnynt, pan fyddwn yn llunio pob ffurflen adran 17 Gellir trafod hyn yng nghyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol/Cynlluniau Gofal a | Clinigydd cyfrifol | 24/03/20 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|------------------------------------------|
| | | <p>Thriniaeth/ar y rownd ward y mae croeso i berthnasau ymuno ynddynt.</p> <p>Atgoffwyd pob aelod o'r staff bod angen cynnwys cyfranogiad y teulu yn ffurflenni absenoldeb o dan adran 17</p> | | |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff hanes asesu risgiau a chynlluniau rheoli eu diweddarau i gynnwys unrhyw risgiau i'r cleifion.</p> | <p>20. Rheoli cofnodion</p> | <p>Caiff yr holl asesiadau risg ac adolygiadau o gynlluniau gofal eu harchwilio gan y tîm rheoli yn fisol, a chânt eu trafod mewn sesiynau goruchwylio rheolaidd</p> <p>Atgoffwyd pob aelod o'r staff am yr angen i ddiweddarau cynlluniau rheoli risgiau i gynnwys unrhyw risgiau i gleifion a nodwyd yn ddiweddar</p> | <p>Rheolwr y ward</p> | <p>Cwblhawyd ddiwedd mis Mawrth 2020</p> |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion nas diwallwyd eu cofnodi yng nghynlluniau gofal cleifion, a bod tystiolaeth o hyn.</p> | <p>20. Rheoli cofnodion</p> | <p>Caiff unrhyw angen nas diwallwyd ei godi ar y rownd ward lle caiff ei drafod fel tîm, a chaiff cynllun gweithredu ei lunio.</p> <p>Caiff ffurflen Datix ei chwblhau a chaiff</p> | <p>Rheolwr y ward</p> | <p>24/03/20</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|----------------------|
| | | ei huwchgyfeiro i Dîm y Gyfarwyddiaeth Oedolion. Atgoffwyd pob aelod o'r staff am y mater hwn. | | |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i sicrhau y cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd. | 25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol | Mae cynlluniau ar waith i gynnal cyfarfod tîm misol, gan gymryd cofnodion a chofnodi'r agenda. Mae cynlluniau hefyd ar waith i gynnal fforwm Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, i ddechrau pan fydd digon o staff | Rheolwr y ward | 30/06/20 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y pryderon a godwyd gan uwch-aelodau o staff y wardiau mewn perthynas â lleihau'r amser rheoli eu hystyried, ac y caiff ateb priodol ei roi ar waith. | 25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol | Mae gwaith parhaus o ran sefydlu nyrsys yn mynd rhagddo, a disgwylir y bydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2020 | Cyfarwyddwr Nyrsio | Medi 2020 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad oes unrhyw oedi y gellir ei osgoi wrth gynnal | 24. Prosesau recriwtio a chyflogi'r | Caiff aelodau o'r staff eu recriwtio drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau. Mae'r | Cyfarwyddwr Gweithredol y | Parhau i adolygu hyn |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|--------------|
| gwiriadau cyn cyflogi. | gweithlu | BIP yn gwneud pob ymdrech i brosesu swyddi gwag mor gyflym â phosibl. Bydd y BIP yn parhau i adolygu hyn yn rheolaidd ac i uwchgyfeirio unrhyw oedi diangen fel sy'n briodol. | Gweithlu | yn rheolaidd |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff swyddi gwag eu llenwi ac y caiff mentrau eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr ysbyty. | 24. Prosesau recriwtio a chyflogi'r gweithlu | Mae cynlluniau ar waith bellach i'r tîm rheoli ymweld â'r prifysgolion a rhoi cyfle i'r myfyrwyr ofyn cwestiynau am Nyrsio fforensig, gan roi gwybodaeth iddynt am y rôl, datblygiad proffesiynol a gyrfaedd yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol. | Rheolwr y ward | 30/06/20 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jayne Tottle

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio

Dyddiad: 25/03/2020